Fel arfer, rhan o fod yn Hyfforddwr Sgiliau yw cwrdd ag unigolion wyneb yn wyneb, boed hynny i'w cofrestru ar brosiect Cyflogadwyedd neu i drafod eu diddordeb mewn cyrsiau hyfforddi, a chynnig cefnogaeth iddyn nhw ar eu llwybr dysgu/cyflogaeth.

Bu'n rhaid i'r gallu i gyfarfod ag unigolion wyneb yn wyneb ddod i ben, ond nid y gallu i gyfathrebu, sy'n golygu y gallem ni barhau i gofrestru unigolion a chefnogi ac annog llawer o bobl.

Fe wnaethom ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyfathrebu â chydweithwyr, darparwyr hyfforddiant a chyfranogwyr. Fe wnaethom ni addasu ffyrdd newydd a chyfredol i hyfforddi a dysgu, ac yn bwysicach na hynny, i oresgyn rhwystrau.

Mae technoleg wedi bod yn arf defnyddiol; roedd technoleg eisoes yn bodoli ond roedd yn gallu bod yn llawn heriau ac mae'n dal i fod felly i rai. Rwyf wedi bod yn hynod o falch o gyfranogwyr sydd wedi goresgyn eu hofn o dechnoleg a llawer o rwystrau bywyd y maen nhw wedi gorfod eu hwynebu yn ystod COVID-19; o golli swyddi, i faterion gofal plant, i iechyd meddwl a lles, ac sydd wedi newid eu bywydau a'u haddasu. Rydym ni wedi gallu cyfeirio pobl mewn cymaint o feysydd i roi'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw ac sydd wedyn yn eu galluogi i barhau â'u taith ddysgu.

Rydym ni wedi goresgyn llawer o rwystrau hyfforddi drwy gysylltu â darparwyr hyfforddiant i sicrhau y gall cyfranogwyr gwblhau hyfforddiant drwy lawer o blatfformau fel Skype, llawlyfrau, cwisiau a llawer mwy o addasiadau ar-lein. Mae llawer iawn o gyrsiau hyfforddi ar gael ar Y We Fyd-Eang ac rydym ni wedi bod yn dod o hyd iddyn nhw.

Dyddiaduron Cyfri